NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Elranatamab ar gyfer trin myeloma ymledol atglafychol ac anhydrin ar ôl 3 triniaeth neu fwy

11 Rhagfyr 2024

Mae elranatamab (Elrexfio) ar gael yn ystod y cyfnod mynediad a reolir . Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer myeloma ymledol mewn oedolion sydd wedi dychwelyd (atglafychol) neu wedi stopio ymateb i driniaeth (anhydrin). Gellir ond ei ddefnyddio yn yr achosion canlynol:

- ar ôl 3 llinell drin neu fwy (gan gynnwys cyffur imiwnogyweiriadurol, atalydd proteasom a gwrthgorff gwrth CD38), a
- pan fydd y myeloma ymledol wedi gwaethygu ar ôl y driniaeth ddiwethaf.

Dilyniant o driniaethau yw llinellau trin, gan ddechrau gyda'r dewis gorau a symud i ddewisiadau eraill os na fydd yr un cyntaf yn gweithio neu'r cyflwr yn gwaethygu. Gall pob llinell fod yn gyffur unigol neu'n gyfuniad o gyffuriau.

Mae rhagor o dystiolaeth ar elranatamab yn cael ei chasglu. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymell defnyddio elranatamab ar y GIG ac yn diweddaru'r canllawiau. Bydd ar gael drwy fynediad a reolir tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael elranatamab ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar fyeloma ymledol fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Myeloma UK, 0800 980 3332
- Blood Cancer UK, 0808 2080 888
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9496-0